"Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu'ch gilydd."
(Ioan 13:34)

Wrth i Iesu baratoi ei ddisgyblion ar gyfer ei ymadawiad i fannau na allent fynd gydag ef iddynt ar y pryd, sef Calfaria a'r nef, mae'n rhoi rheol newydd iddynt. Mae'n rheol eithriadol bwysig i Eglwys Crist ym mhob oes.

Ymadawiad

Mae Iesu wedi anfon Jwdas allan i frysio i wneud ei anfadwaith bradog. Mae cam arall wedi ei gymryd i gyflawni'r cynllun tragwyddol i achub y ddynoliaeth. Mae Iesu wedi gogoneddu'r Tad trwy anfon Jwdas ymaith i drefnu'r brad. Roedd Iesu'n gwybod beth oedd ar fin digwydd, ac mae wedi dangos ei fod yn barod i wynebu'r dioddefaint yn ufudd. Wrth wneud hyn, y mae wedi gogoneddu'r Tad. Mae'n disgwyl hefyd y caiff ei ogoneddu yn y Tad wrth fynd ymlaen i'r groes, yr atgyfodiad, yr esgyniad a'r coroni nefol.

Neb yn dilyn

Ni allai neb fynd gydag ef i'r groes:

Nid oedd ond un yn ddigon da
i dalu pridwerth dyn;
Ni allai neb ddatgloi y drws
i'r nef ond ef ei hun." (C.F.Alexander, cyf.Elfed).

Ni allai'r disgyblion fynd at y Tad eto, nes iddyn nhw farw yn nes ymlaen. Roedd y Meseia wedi rhybuddio'r Iddewon anghrediniol na allent fynd at y Tad o gwbl os byddent yn parhau i wrthod y Mab: **"Fe chwiliwch amdanaf fi, ond byddwch farw yn eich pechod. Lle'r wyf fi'n mynd, ni allwch chwi ddod"** (Ioan 8:21). Roedd wedi eu rhybuddio mai dim ond am gyfnod byr y byddai Goleuni'r Byd gyda nhw eto. Gyda'i ymadawiad ef, byddai'r haul yn machlud a'u cyfle i gael eu hachub yn machlud hefyd: **"Rhodiwch tra bo'r goleuni gennych, rhag i'r tywyllwch eich goddiweddyd"** (Ioan 12:35).

Mewn ychydig oriau byddai'r gymdeithas ddyddiol, corfforol, rhwng Meistr a disgyblion yn dod i ben am byth. Fydden nhw ddim yn llawenhau ym mhresenoldeb gweladwy Iesu eto yn y byd hwn. Serch hynny, mae Iesu'n dweud wrthynt sut i ymddwyn tuag at ei gilydd yn ei absenoldeb. Mae'r term 'fy mhlant' yn dangos pa mor annwyl oeddent yn ei olwg, er gwaethaf eu hanaeddfedrwydd ysbrydol.

Gorchymyn

Mae 'gorchymyn' yn golygu sawl peth yn y Testament Newydd. Gall olygu gwŷs gan y Sanhedrin, fel y rhoddwyd gan y prif offeiriaid a'r Phariseaid: **"os oedd rhywun yn gwybod lle'r oedd ef (Iesu), ei fod i'w hysbysu hwy"** (Ioan 11.57). Roedd hwn yn orchymyn ffurfiol a swyddogol.

Mae Iesu'n sôn hefyd am y siars a gafodd gan ei Dad, ynglŷn â'i farwolaeth, ei ymadroddion a'i weinidogaeth gyffredinol yn y byd. Roedd y gorchymyn hwnnw yn llawer mwy cariadus na'r cyntaf.

Yna daw'r rheol newydd yma gan Iesu. Dyma reol ymddygiad i'w ddisgyblion annwyl yn dilyn ei esiampl bersonol iddynt. Unwaith eto, mae'n rheol cariad wrth iddo'u gadael yn y byd a'u paratoi i fyw gyda'i gilydd hebddo.

Newydd

Ar yr olwg gyntaf, dydy'r gorchymyn yma ddim yn newydd. Onid oedd Duw wedi dweud wrth blant Israel i garu eu cymydog? Yn wir, onid oedd cariad at Dduw ac at gymydog yn crynhoi y Deg Gorchymyn? **"A chân yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth… Câr dy gymydog fel ti dy hun"** (Marc 12.30-31).

Beth sydd yn newydd ac yn ffres ynglŷn â geiriau Iesu yw ei fod yn dweud wrthynt ***sut*** i garu ei gilydd.

Dull Crist

Mae Crist yn disgwyl i'w ddisgyblion garu ei gilydd fel yr oedd ef wedi eu caru. Roedd eisoes wedi a byddai eto'n gosod esiampl o gariad hunanaberthol parhaol tuag atynt. Dylem feddwl am ei ymgnawdoliad, ei weinidogaeth ddaearol, ac yna Calfaria. Dyma'r patrwm ar gyfer eu hagwedd a'u perthynas gyda'i gilydd. Mae ufudd-dod parod i'r gorchymyn hwn yn holl bwysig i iechyd ysbrydol y disgyblion, a'r holl Eglwys mewn gwirionedd.

Stamp dilysrwydd

Pan mae arbenigwyr yn mesur gwerth hen bethau, maen nhw'n chwilio am stamp y gwneuthurwr. Cariad hunanaberthol at ein gilydd yw stamp dilysrwydd Crist ynom ni. Does dim disgwyl i eraill ein hadnabod fel Cristnogion os nad yw'r cariad yma yn cael ei weithredu rhyngom.

Daeth hyn yn ffaith yn yr Eglwys gynnar ac yn gyhuddiad yn erbyn rhai o saint cynharaf yr Eglwys: *"Ond y mae hyd yn oed gweithredu'r math yma o gariad, yn fwy na dim arall, yn esgus i rai ein beio. 'Edrychwch', meddant, 'fel y mae'r rhain yn caru ei gilydd!' Oherwydd y maent hwy yn casáu ei gilydd.* (Tertulianus, Apol.)

Dyma neges heriol i'r Eglwys ym mhob cyfnod!